# Archwilio'r gallu i weld

## Trosolwg

Gall promptiau synhwyraidd syml helpu rhieni a gofalwyr i fanteisio ar eiliadau chwaraegar. Ceisiwch dynnu sylw at y synhwyrau drwy fannau a deunyddiau naturiol.



## Gweithgareddau

Archwiliwch ardd y feithrinfa gan ddefnyddio'r gallu i weld. Chwiliwch am olau a chysgod, a sylwch a all y plant weld o ble y mae'r golau yn dod. Gallwch greu eich cysgod brith eich hun â tharpolin. Gosodwch hamog neu rỳg ac anogwch deuluoedd i orwedd arno ac edrych ar y cymylau neu'r coed sydd uwch eu pen. Chwiliwch am adlewyrchiadau mewn pyllau, a darparwch ddrychau llaw er mwyn edrych dan wrychoedd a chwyddwydrau er mwyn gweld eitemau bach iawn.

## Offer

- Tarpolin cuddliw
- Hamog
- Rỳg picnic
- Drychau llaw
- Chwyddwydrau

## Cwestiynau allweddol

Beth gallwch chi ei weld?
O ble mae'r golau yn dod?
Pryd mae ar ei fwyaf disglair?
Pam mae'n dywyll draw fan 'na?
Pwy sy'n cuddio dan y gwrych yma?

## Deilliannau dysgu

- Deall y byd. Chwilfrydedd, syndod a rhyfeddod.
- STEM – archwilio syniadau'n ymwneud â phethau golau a thywyll, y modd y mae'r haul yn symud, a threigl amser.

## Symud y dysgu yn ei flaen

- Chwarae 'Rwy'n gweld â'm llygad bach i' ond gyda lliwiau - 'Rwy'n gweld â'm llygad bach i rywbeth sy'n wyrdd'
- Mynd ar helfa liwiau a dod ag eitemau'n ôl sy'n cyd-fynd â chardiau lliwiau